# PAPURAU BUSNES

## 1 Chwefror 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

Cynigion a gyflwynwyd ar 25 Ionawr 2000

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad:

(a) yn croesawu adroddiad gan Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16* y Cynulliad a'i argymhellion cyffredinol ar gyfer rhoi'r Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant ar waith;

(b) yn cefnogi'r egwyddorion, yr amcanion a'r canlyniadau cyffredinol a nodir yn y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i Gymru**;

(c) yn cytuno bod cysylltiad clòs a chydradd rhwng addysg a hyfforddiant a'r broses o sicrhau datblygiad cymunedol; cynhwysiant cymdeithasol; a chreu cyfoeth ynghyd â chynorthwyo pobl i fwynhau a chyfoethogi'u bywydau a chyflawni'u dyheadau personol; bod pob un o'r dimensiynau hyn yr un mor hanfodol bwysig; ac y dylid dileu'r rhaniad artiffisial rhwng addysg a hyfforddiant;

(d) yn cydnabod cyfraniadau allweddol cyflogwyr, undebau llafur, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, ymarferwyr ac amrywiaeth eang o bartneriaid eraill sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r Cynllun ar waith;

(e) yn nodi'r gwaith sydd ar y gweill gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd er mwyn sicrhau y caiff y swyddogaethau menter, a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Cynghorau Hyfforddi a Menter, eu datblygu'n briodol fel rhan o'r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol;

(f) yn cymeradwyo'r newidiadau strwythurol a argymhellir gan y Pwyllgor ar ôl 16, a'r egwyddor o roi'r cyfrifoldeb am swyddogaethau menter sy'n gysylltiedig â sgiliau ar ysgwyddau'r Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant newydd ar gyfer Cymru;

(g) yn cytuno y dylai'r Weithrediaeth roi cychwyn ar y gwaith angenrheidiol gyda'r Cynghorau Hyfforddi a Menter a Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru fel y gellir gweithredu'r trefniadau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed erbyn Ebrill 1af 2001, gan ymdrin â'r holl faterion yn ymwneud â staffio sy'n deillio o'r ad-drefnu mewn

ffordd agored a theg.

*ar gael ar y fewnrwyd yn Busnes y Cynulliad/Pwyllgorau/Adroddiadau/ETAG.

**ar gael ar y fewnrwyd yn mynegai i’r pynciau/addysg a diwylliant/dysgu gydol eich oes/ cynllun gweithredu Grwp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Cymru. **(NDM173)**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig y dylai’r Cynulliad benderfynu rhoi Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn lle Elin Jones (Plaid Cymru) ar y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, a hynny ar unwaith. **(NDM174)**

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 21 Ionawr 2000

**NDM 173**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

**1. Christine Humphreys (Gogledd Cymru):**

Yn dilyn pwynt a), ychwanegu pwynt bwled newydd, ac yna ail rifo fel y bo'n briodol: "yn croesawu'n arbennig y cyfle a ddaeth yn sgil datganoli i Gymru ddewis ei chyfeiriad ei hun i raddau helaeth mewn addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed".

**2. Christine Humphreys (Gogledd Cymru):**

Yn dilyn pwynt c), ychwanegu pwynt bwled newydd, ac yna ail rifo fel y bo'n briodol: "yn cydnabod goblygiadau ariannol cynnal addysg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac addysg mewn ardaloedd gwledig, ac felly'n cydnabod na fydd yr un meini prawf hyfywedd yn gymwys ar gyfer pob chweched dosbarth".

**3. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):**

Ym mhwynt (d), yn dilyn "gwireddu'r Cynllun" ychwanegu'r canlynol:

"ac felly yn ategu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth i gynnwys lleiafswm o 40% o aelodau o fyd busnes ar Gyngor Dysgu a Medrau Lloegr, ac yn gwneud yr un ymrwymiad i Gyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru a’i haen ranbarthol;"

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**

Ym mhwynt (b), yn dilyn "Cynllun Cymru" ychwanegu'r canlynol:

"ond yn gwrthwynebu'r cynnig yn y Cynllun, a adlewyrchir yng Nghymal 36 y Mesur Dysgu a Medrau, bod y cyfrifoldeb yn y pen draw am ariannu chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael ei drosglwyddo o awdurdodau lleol etholedig i Gyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru nad yw wedi'i ethol"

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**

Ym mhwynt (f) dileu'r holl destun gan roi'r canlynol yn ei le:

"yn gresynu nad yw'r Mesur Dysgu a Medrau sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan D'r Arglwyddi yn rhoi cyllidebau penodedig na phwerau ar wahân i haen ranbarthol Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru, ac yn pryderu y gallai natur ymgynghorol y pwyllgorau rhanbarthol hyn danseilio cyfranogiad busnes llawn ynddynt, a;"

**6. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt (f) newydd ac ail rifo pwyntiau dilynol yn ôl y galw:

"(f) yn cytuno nad oes angen i'r Cynulliad sefydlu Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant, ond yn annog darparwyr addysg a hyfforddiant lleol i ddod ynghyd mewn cymdeithasau gwirfoddol ar draws Cymru, yn yr un modd â'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd;"

**7. Elin Jones (Ceredigion):**

Ym mharagraff C, yn dilyn "ynghyd â", ychwanegu "datblygiad deallusol a diwylliannol."

**8. Elin Jones (Ceredigion):**

Yn dilyn paragraff C, ychwanegu paragraff newydd ac ail rifo fel y bo'n briodol:

"yn ategu hefyd yr alwad am dwf sylweddol yn y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg"

**9. Elin Jones (Ceredigion):**

Yn dilyn paragraff F, ychwanegu paragraff newydd ac ail rifo fel y bo'n briodol:

"yn cefnogi hefyd yr alwad am fformwla ariannu cenedlaethol newydd i adlewyrchu'r angen i ddiogelu hygyrchedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac yn cydnabod yr angen i roi ystyriaeth ofalus i effaith fformwla ariannu cyffredin ar ddarpariaeth addysg cyn 16 oed."